Darganfod
Dadlau
Dewis

---

Discover
Debate
Decide

# Newyddlen y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc



## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.**



## Beth yw'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc?



# Neges gan y Cadeirydd




Helo,
Helen Mary Jones ydw i, Aelod Cynulliad Llanelli a Chadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Fy ngwaith i yw helpu'r Pwyllgor i feddwl am y pethau sy'n bwysig i blant a phobl ifanc Cymru a helpu'r Pwyllgor i gytuno ar yr hyn y dylem ofyn i Lywodraeth Cymru ei wneud yn eu cylch.

Ym mis Tachwedd 2010, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar fannau diogel i chwarae neu i gymdeithasu. Dywedodd llawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru wrthym eu bod am i ni ymchwilio i'r mater pwysig hwn felly treuliwyd blwyddyn yn casglu tystiolaeth ac yn siarad â phlant a phobl ifanc am eu profiadau a beth yr oeddent ei eisiau yn eu hardaloedd. Gallwch ddarganfod mwy am yr adroddiad ac am ein dathliad arbennig o chwarae. Do, trefnwyd digwyddiad chwarae gennym i ddweud wrth bobl am yr adroddiad, fel y cewch glywed yn nes ymlaen yn y cylchlythyr hwn.

Hefyd fe wnaethom gyhoeddi adroddiad y tymor diwethaf am wasanaethau eiriolaeth. Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym bod cael eiriolwr, sef person a allai eu helpu i leisio eu barn, yn bwysig iawn. Gall eiriolwyr hefyd helpu plant a phobl ifanc i deimlo'n hyderus i ddweud eu dweud, ac i ddweud eu dweud dros blant a phobl ifanc eraill. Gofynnwyd i'r Llywodraeth wneud yn sicr bod plant a phobl ifanc ar draws Cymru ag eiriolwr os dyna yw eu dymuniad. Cytunodd y Llywodraeth bod eiriolwyr yn hynod o bwysig a sefydlwyd llinell gymorth eiriolaeth genedlaethol ganddi a elwir 'Meic'. Os oes angen rhywun i sgwrsio â chi am eich bod yn teimlo nad oes neb yn gwrando, ffoniwch Meic ar y rhif 080880 23456. Gallwch ffonio am ddim (hyd yn oed o ffôn symudol) a gall pobl ar y ffôn eich cysylltu ag eiriolwr yn eich ardal chi. Hefyd gallwch anfon neges destun at Meic wrth ddeialu 84001 neu anfonwch neges e-bost ato yn help@meiccymru.org.

Y tymor hwn, mae'r Pwyllgor yn paratoi ar gyfer yr etholiad ym mis Mai a'r newidiadau a fydd yn deillio o hynny – darllenwch fwy i gael rhagor o wybodaeth. Rydym hefyd yn gofyn am eich help wrth feddwl beth y dylai pwyllgorau edrych arnynt yn y dyfodol a sut y mae modd iddynt helpu i wella bywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Darllenwch fwy, a chysylltwch â ni!

Helen Mary Jones, Cadeirydd



# Uwch Gynhadledd Tlodi Plant 2010



Aeth Helen Mary Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, i Uwchgynhadledd Tlodi Plant 2010 yng Nghaerdydd ar 12 Tachwedd. Mae o leiaf traean o blant Cymru – dros 170,000 o blant – yn byw mewn tlodi yn awr. Golyga hyn nad oes ganddynt hwy a'u teuluoedd ddigon o arian i fyw yn dda, a bydd yn rhaid i rai benderfynu i brynu bwyd i'w fwyta, neu ddillad i'w gwisgo gan na allant fforddio'r ddau beth.

Mae pawb yn credu bod tlodi plant yn beth drwg iawn, ond oherwydd bod llawer o bethau gwahanol yn achosi tlodi plant, mae'n hynod o anodd ei osgoi – mae'n cymryd llawer o ymdrech gan lawer o wahanol o bobl. Gwahoddwyd rhai o'r bobl hynny i'r uwchgynhadledd ar dlodi, a gynhaliwyd gan blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Rhoddodd plant a phobl ifanc gyflwyniadau a wnaeth i'r oedolion yn yr ystafell ddeall y problemau a gaiff eu hachosi gan dlodi.

Dywedodd rhai plant eu bod yn llwglyd bob amser am nad ydynt yn cael digon i'w fwyta gartref. Mae rhai yn cael eu temtio i ddwyn arian cinio plant eraill er mwyn cael rhagor i'w fwyta, ac mae eraill yn teimlo cywilydd pan fyddant yn cael tocyn i gael cinio am ddim yn yr ysgol sy'n peri iddynt deimlo ar wahân i ddisgyblion sydd yn rhoi arian parod am eu cinio. Dywedodd un plentyn wrth y gynhadledd ei bod wedi'i chadw'n effro drwy'r nos am fod pobl y tu allan yn gwneud sŵn ac yn torri ffenestri ceir. All ei theulu ddim fforddio byw mewn ardal brafiach, ond oherwydd y sŵn fe gollodd hi'r ysgol yn y diwedd am ei bod wedi blino gormod i fynd yno. Teimla ei fod yn hynod annheg, bod pobl yn angharedig ac anystyriol ac yn peri iddi hi orfod methu gwersi ac amser i chwarae gyda'i ffrindiau.

Dywedodd y plant a'r bobl ifanc wrth y gynhadledd hefyd fod rhai pethau syml y gellir eu gwneud i wella'r sefyllfa. Cynlluniodd un grŵp o blant bosteri i'w harddangos mewn tafarndai lleol i ofyn i bobl fod yn dawel wrth fynd tuag adref. Gobeithio y bydd pobl yn eu darllen ac yn gwrando ar eu neges ar ôl cael noson yn y dafarn fel nad ydynt yn deffro plant sy'n byw yn y cyffiniau.

Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn edrych sut y gall ysgolion a cholegau helpu i atal tlodi plant. Ysgrifennodd y Pwyllgor adroddiad ar y mater y llynedd a gwnaeth argymhellion i Lywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn awr yn gwirio beth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ers hynny, a holi a oes rhagor y gellir ei wneud.

Oherwydd bod gan blant a phobl ifanc yn y gynhadledd gymaint i'w ddweud am dlodi plant, mae'r Pwyllgor wedi'u gwahodd i'r Senedd i gyflwyno eu safbwyntiau i aelodau'r Pwyllgor fel y gallant wyntyllu eu syniadau gyda'i gilydd. Bydd y Pwyllgor yn meddwl am yr hyn y mae plant a phobl ifanc wedi'i ddweud wrthynt pan fyddant yn ysgrifennu eu hadroddiad newydd ar dlodi plant ac yn cynnig rhagor o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi yn nhymor y gwanwyn.

Gallwch weld llun o Helen Mary a phlant o Ysgol Gynradd Millbank yn ddiweddarach yn y newyddlen hwn (gweler Fig 01).





# Chwarae plant yn y Senedd

Ar 23 Tachwedd, ymunodd 80 o blant a phobl ifanc â'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i ddathlu chwarae y tu allan i'r Senedd. Hefyd roedd gennym rai gwesteion arbennig annisgwyl, gan fod tîm rygbi dan 20 oed Awstralia wedi taro heibio ac fe wnaethant aros i ymuno yn yr hwyl.

Roedd digon o bethau i'w gwneud yn y digwyddiad chwarae – roedd y gêm bêl fasged yn boblogaidd iawn gyda'r plant, y bobl ifanc a'r oedolion. Hefyd roedd gennym beli neidio, hwpiau troelli, hoci a gemau dal. Cynhaliwyd gweithdy dawnsio stryd hefyd lle'r oedd llawer o bobl yn dysgu symudiadau dawns newydd gwych. Hefyd roedd gennym ddigon o sialc er mwyn i bawb gael creu celf y stryd. Roedd rhai darluniau ardderchog wedi'u creu a oedd wedi aros ar y palmant am rai dyddiau ar ôl y digwyddiad i bawb gael eu gweld. Mae'n bosibl fod rhai ymwelwyr wedi pendronni beth ar y ddaear oedd wedi bod yn digwydd mor agos at y Senedd pan welsant gymaint o sialc a lluniau ym mhob man!


Penderfynodd y Pwyllgor gynnal y digwyddiad hwn er mwyn rhoi gwybod i bawb am eu hadroddiad ar fannau diogel i chwarae a chymdeithasu, a oedd wedi'i gyhoeddi ar yr un diwrnod. Bu'r Pwyllgor yn ymchwilio i'r pwnc am yn agos i flwyddyn ac mae 1200 bron o blant a phobl ifanc wedi dweud wrtho fod cael lle ac amser i chwarae yn bwysig iawn iddynt. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd, mewn rhai rhannau o Gymru, fod pobl yn adeiladu mannau chwarae heb siarad â phlant a phobl ifanc yn gyntaf i ofyn pa fath o offer chwarae yr hoffent ei gael. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, nad yw parciau sglefrio ddim yn cael eu defnyddio am eu bod yn y lle anghywir, ac mae parciau pêl droed am ddim yn cael eu dinistrio a rhai newydd yn cael eu rhoi yn eu lle sy'n gofyn fod plant a phobl ifanc yn talu am eu defnyddio.

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud 26 argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Roedd yr argymhellion yn cynnwys pethau fel "gofyn i blant a phobl ifanc beth maent yn ei deimlo am eich cynlluniau cyn i chi wneud penderfyniadau" a "gwneud rhagor i wneud yn siŵr fod plant yn ddiogel rhag traffig". Fe wnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru hefyd i weithio gyda'r cyfryngau i sicrhau bod storïau newyddion da am blant a phobl ifanc yn cael sylw yn y papurau newydd ac ar y teledu. Mae hyn oherwydd bod plant a phobl ifanc wedi dweud wrthym fod oedolion yn eithaf negyddol tuag atynt ar adegau a bod disgwyl iddynt greu trafferthion dim ond am eu bod yn bobl ifanc.

Mae'r adroddiad llawn, fersiwn Cymraeg plaen ohono a fideo am ein ymchwiliad i'w cael ar ein gwefan. Mae modd i chi gysylltu â ni i gael copïau am ddim o'r adroddiad hefyd os dymunwch.

Bydd Llywodraeth Cymru yn awr yn meddwl beth i'w wneud am y materion a godwyd a bydd yn rhoi gwybod am ei bwriad i'r Pwyllgor yn nhymor y gwanwyn. Yna bydd y Cynulliad cyfan yn dadlau ar y mater yn y Cyfarfod Llawn (cyfarfod y 60 Aelod Cynulliad i gyd). Gwyliwch ein gwefan i gael y manylion diweddaraf. Mae'n bosibl yr hoffech wylio'r ddadl ar y teledu, neu ddod i'r Senedd i'w gweld yn fyw.


Gallwch weld rhai lluniau a gafodd eu tynnu yn y digwyddiad chwarae yn ddiweddarach yn y newyddlen hwn (gweler Fig 02-04).



# Ffeithiau a ffigurau y Senedd

**Dyma rai ffeithiau a ffigurau diddorol am y Cynulliad a'r Pwyllgor.**

- Mae dros 900,000 o bobl wedi ymweld â'r Senedd ers iddo agor ar 01 Mawrth 2006.
- Mae dros 61,070 o bobl wedi bod ar daith dywys o amgylch y Senedd ers iddo agor ar 01 Mawrth 2006.
- Cynhaliwyd yr ymweliad addysg cyntaf â'r Cynulliad ym mis Hydref 2000.
- Agorwyd Siambr Hywel yn swyddogol ym mis Ebrill 2008.
- Ffurfiwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ym mis Tachwedd 2007. Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi cael 55 o gyfarfodydd. Hwn yw'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc cyntaf i gael ei ffurfio yn y Deyrnas Unedig.



## Y tymor hwn ar gyfer y Pwyllgor

Mae gan y Pwyllgor chwe chyfarfod y tymor hwn ar y dyddiadau canlynol – 11 Ionawr, 25 Ionawr, 08 Chwefror, 01 Mawrth, 15 Mawrth a 29 Mawrth.

Yng nghyfarfod cyntaf y tymor bydd y Pwyllgor yn siarad â rhagor o bobl ynghylch beth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ynghylch argymhellion ein hadroddiad ar Dlodi Plant yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan yr Athro David Egan o UWIC a'r Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant. Hwn fydd y cyfarfod olaf ar gyfer clywed tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad dilynol hwn a byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar yr hyn a ganfuwyd gennym. Caiff yr adroddiad ei anfon i'r Dirprwy Weinidog dros Blant. Bydd ef yn dweud wrthym beth a wneir am unrhyw argymhellion yn yr adroddiad cyn diwedd mis Mawrth.

Yn y cyfarfod nesaf ar 25 Ionawr mae'r Pwyllgor wedi gwahodd y Dirprwy Weinidog dros Blant i sôn am adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant a gyhoeddwyd ym mis Medi 2010. Byddwn yn gofyn cwestiynau iddo am y pethau a ddywedodd yn yr adroddiad.

Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd sefydliadau a grwpiau o bobl ifanc i'r Pwyllgor ar gyfer cyfarfodydd dilynol i ddweud pa faterion mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc y dylai'r Cynulliad edrych arnynt ar ôl yr etholiad ym mis Mai. Bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu adroddiad gyda manylion ynghylch beth y mae'r Pwyllgor wedi'i gyflawni yn y Trydydd Cynulliad a pham y dylai Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc fod yn y Pedwerydd Cynulliad. I gael rhagor o wybodaeth am y Cynulliad nesaf gweler yr erthygl am "tymor mawr i ddod ar gyfer gwlad fach" ar dudalen 16. Caiff yr adroddiad ei lansio ar 29 Mawrth. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'ch syniadau ar gyfer yr adroddiad felly cysylltwch â ni drwy neges e-bost os gwelwch yn dda.

Ar 01 Mawrth bydd y Dirprwy Weinidog dros y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud wrth y Pwyllgor am y Papur Gwyn ar ddyfodol y Gwasanaethau Cymdeithasol y bwriedir ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Chwefror.



## Y tymor hwn ar gyfer gweddill y Cynulliad

Am restr o ymchwiliadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gan bwyllgorau eraill ewch i www.cynulliadcymru.org.

Cynhelir Cyfarfodydd Llawn (cyfarfod y 60 Aelod Cynulliad) bob wythnos ar brynhawn dydd Mawrth a phrynhawn dydd Mercher. Gwneir datganiad busnes yn y Cyfarfod Llawn bob dydd Mawrth sy'n amlinellu'r hyn sydd i ddod yn ystod y tair wythnos nesaf. Y tymor hwn bydd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ateb cwestiynau, a bydd yr union ddyddiadau i'w gweld yn y datganiad busnes ar wefan y Cynulliad wwwcynulliadcymru.org.

Ar 02 Chwefror bydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn cynnal dadl ar eu hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd ar Ddarparu Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu. Hefyd bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiadau dilynol ar Rianta yng Nghymru a darparu'r Cynllun Gweithredu Rhianta a Thlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw'r Ateb? Ar 18 Ionawr bydd dadl ar y gyllideb ddrafft. Ar ddiwedd y tymor hwn bydd y Dirprwy Weinidog dros Blant yn ymateb yn ffurfiol i adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant.



# Pleidleisio

**Yn ystod 2011, caiff pobl Cymru dri chyfle i bleidleisio. Dros y misoedd nesaf bydd bws y Cynulliad yn mynd ar daith o amgylch Cymru er mwyn clywed eich barn am bleidleisio. Os hoffech wybod mwy am y daith a phryd bydd y bws yn ymweld â'ch ardal chi, ewch i: www.cynulliadcymru.org.**

**Gallwch hefyd ddweud eich dweud ar lyfr ymwelwyr pleidleisio ar-lein newydd y Cynulliad sydd ar gael yma: pleidleisiwch2011.wordpress.com.**



# Tymor mawr i ddod i'n gwlad fach

Bydd tymor y gwanwyn yn dymor mawr a phwysig ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bob pedair blynedd mae gennym etholiad yng Nghymru i benderfynu pwy a ddylai fod yn Aelodau'r Cynulliad am y pedair blynedd nesaf. Cynhelir yr etholiad nesaf ym mis Mai 2011.

Un mis cyn yr etholiad, sef ar ddechrau mis Ebrill, bydd yr holl wleidyddion sy'n aelodau o'r Cynulliad ar hyn o bryd yn peidio â bod yn Aelodau'r Cynulliad. Byddant yn treulio mis yn siarad â phobl yng Nghymru ynghylch beth y byddent yn ei wneud yn y Cynulliad pe byddai pobl yn pleidleisio drostynt i fod yn Aelodau'r Cynulliad eto. Bydd pobl eraill sy'n dymuno bod yn Aelodau yn y Cynulliad newydd yn siarad â phobl hefyd ac felly ar 05 Mai 2011, gofynnir i bleidleiswyr benderfynu pwy a ddylai weithio drostyn nhw yn y Cynulliad.

Pan fydd y pleidleisiau wedi'u cyfrif bydd y gwleidyddion a ddewiswyd i fod yn Aelodau'r Cynulliad yn mynd i'r Cynulliad ym Mae Caerdydd. Bydd rhai ohonynt yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio llywodraeth a fydd yn gyfrifol am benderfynu sut y caiff Cymru ei rheoli. Bydd Aelodau eraill yn ffurfio pwyllgorau (fel y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc) i edrych ar faterion sy'n effeithio ar bobl Cymru ac i wneud yn siŵr fod y llywodraeth yn gwneud ei gwaith yn iawn.

Gwyddom eisoes fod rhai o'r Aelodau Cynulliad presennol wedi penderfynu peidio â bod yn Aelodau Cynulliad eto. Oherwydd hyn, gwyddom cyn y dyddiad




pleidleisio y bydd rhai Aelodau Cynulliad newydd yn y Cynulliad nesaf. Fodd bynnag, dim ond ar ôl y diwrnod pleidleisio y byddwn yn gwybod pwy fydd yn ffurfio llywodraeth a pha bwyllgorau a fydd yn bodoli yn y dyfodol.

Ond nid yr etholiad yw'r unig ddigwyddiad mawr y tymor hwn. Hefyd bydd pleidlais arbennig a elwir yn 'refferendwm' ar 03 Mawrth 2011. Nid yw refferendwm yn digwydd yn aml. Yn wir ym 1999 oedd un diwethaf a gawsom yng Nghymru, pan ofynnwyd i bobl bleidleisio a oedd arnynt eisiau Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Oherwydd bod y pleidleiswyr wedi dweud 'ie', mae gennym bellach Gynulliad ym Mae Caerdydd.

Ar 03 Mawrth 2011, cynhelir refferendwm ynghylch sut y mae'r Cynulliad yn deddfu ar gyfer Cymru. Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i ddeddfu ar gyfer Cymru ar rai o'r pynciau yn yr 20 maes sydd wedi'u datganoli. Gall y Cynulliad ennill mwy o bwerau deddfu yn y meysydd hynny gyda chytundeb Senedd y DU, a hynny fesul pwnc. Os bydd y rhan fwyaf o bobl yn pleidleisio'n gadarnhaol yn y refferendwm hwn, bydd y Cynulliad yn ennill pwerau i ddeddfu ar bob pwnc yn y meysydd sydd wedi'u datganoli heb fod angen cytundeb Senedd y DU yn gyntaf. Os bydd y rhan fwyaf o bobl yn pleidleisio'n negyddol, bydd y system ddeddfu bresennol yn parhau.

Mae Aelodau'r Cynulliad a staff y Cynulliad yn gweithio'n galed ar hyn o bryd i wneud yn sicr fod pobl Cymru yn gwybod ystyr y gwahanol bleidleisiau. Os hoffech chi gael gwybod rhagor, cysylltwch â ni i gael ymweliad gan Swyddog Addysg y Cynulliad a fydd yn gallu rhoi eglurhad i chi.



## The Senedd

Y Senedd yw cartref Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ers iddi agor yn 2006, mae'r Senedd wedi dod yn un o'r adeiladau mwyaf enwog yng Nghymru. Gwneir cyfreithiau Cymru yn y Senedd ac, yn 2008, dyma lle y pasiwyd y gyfraith Gymreig gyntaf ers y 10fed ganrif. Mae'r adeilad a'r Siambr yn fannau cyhoeddus fel y gall pobl Cymru wylio Aelodau'r Cynulliad wrth eu gwaith.

Os hoffech ymweld â'r Senedd i fynd ar daith dywys neu i wylio'r Cyfarfod Llawn neu gyfarfod Pwyllgor, ffoniwch ein llinell archebu ar 0845 010 5500 neu anfonwch e-bost at:

archebu@cymru.gov.uk.




Fig 01




Fig 02



Fig 03



Fig 04




# Cymryd rhan

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
RHADBOST SWC 3358
Bae Caerdydd
CF99 1GY

E: Children.&YoungPeopleCommittee@Cymru.gov.uk
T: 029 2089 8149
T: 029 2089 8021

Dilynwch y Cynulliad ar Facebook a Twitter
a gwelwch ni ar Flickr, YouTube a Vimeo.



E: Children.&YoungPeopleCommittee@Cymru.gov.uk
T: 029 2089 8149



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales